

**LLEISIAU O LAWYR Y FFATRI / VOICES FROM THE FACTORY FLOOR**

**Morris Motors, Felinfoel, Llanelli (1940 – 1945) &  
(1965 – 1968) Modern Folding Doors, y Tymbl**

**Cyfwelai:** VSW002 Elizabeth Mary Lewis (“May”)

**Dyddiad:** 8.11.13

**Cyfwelydd:** Susan Roberts ar ran Archif Menywod Cymru

*There is an English summary at the end of the Welsh text*

**00.00.04:** Ni’n barod i ddechrau nawr. Wedyn wy’ jest mynd i ofyn chi’n gynta os allech chi weud ‘tho fi, beth yw’ch enw chi?

May Lewis.

**A beth yw’r date of birth May?**

16.6.24

**00.00.32:** Ewn ni nôl reit i’r dechre nawr oce. Ble gesoch chi’ch geni?

Yn Gorslas, Black Lion Road.

**Beth o’dd ych tad yn neud?**

Yn gwaith glo.

**Pwy waith glo o’dd e?**

Crosshands.

**O’dd ych mam yn gwitho?**

Nago’dd.

**00.00.55:** Oedd brodyr a chwiorydd ‘da chi?

O’dd, dou frawd.

**Dou frawd. O’n nhw’n henach na chi?**

Nagon, yn ifancach.

**00.01.03:** Ble ethoch chi i’r ysgol wedyn?

Gorslas. A symudon ni i Cwmmawr. A bues i, o’n i’n thirteen yn mynd i fyw yn Cwmmawr. A gorfes i fynd i ysgol Drefach am flwyddyn.

**00.01.16: A pwy oedran o'ch chi'n cwpla ysgol?**

Fourteen pyr'nny.

**00.01.24: O'ch chi'n gorfod paso rhyw exam i ga'l cwpla?**

Na, o'dd dim byd i ga'l pyr'nny.

**00.01.27: A shwd o'ch chi'n twmlo ymbytu gadel yr ysgol? O'ch chi'n hapus i adel yr ysgol.**

O'n, olreit. O'n i wedi pasio i'r Gwendraeth (GRAMMAR SCHOOL) ond o'dd 'yn nhad ddim yn bodlon i fi fynd i'r Gwendraeth, achos o'dd well 'da fe weld y bois yn mynd.

**00.01.46: A shwd o'ch chi'n twmlo am hwnna te?**

Olreit. Dreies i a passes i. Ges i ddim mynd.

**Ma' hwnna'n galed ondywe?**

O'dd, o'dd.

**00.01.56: O'dd y bois wedi pasio te?**

Un ohonyn nhw – yr ifanca.

**Pyr'nny o'dd chi'n gorfod talu tipyn am iwnniform?**

O'ch chi'n gorfod talu am yr ysgol pyr'nny chwel.

**O, fi'n gweld. O'ch chi'n gorfod talu i fynd i'r ysgol?**

O'ch chi'n gorfod talu i fynd i'r Gwendraeth pyr'nny. O'ch chi'n gorfod talu am bopeth chwel.

**00.02.20: Ac o'ch chi fallu mwy brainy na'r bechgyn.**

A ma' mrawd ifanca, o'dd e'n gwd. Ond chi'n gwbod beth hapnodd. O'dd 'yn frawd hena yn gweud bo' fe'n moyn, wedodd 'yn dad i 'ti'n treial i fynd i'r yna', a wedodd e ma'r mishtir yn gweud bo' fi ddim yn digon da, gweud anwiredd o'dd e. O'dd e ddim yn moyn treial.

**Beth o'dd e moyn neud te?**

Ar y bilding ma' fe wedi bod.

**00.02.48: Beth ethoch chi i neud ar ôl gadel ysgol?**

Bues i'n helpu Mrs Ennis am sbel i garco'r plant iddi. O'dd garej fawr 'da nhw yn Crosshands. A wedyn es i i ddysgu gwnïo.

**00.02.59: A ble dysgoch chi i wnïo?**

Yn Gorslas, 'da Mrs Evans. O'dd peder o'n ni 'na.

**Shwd o'ch chi'n mynd ymbytu ca'l y grefft, chi'n gwbod? O'ch chi'n nabod hi'n barod?**

O'dd hi'n briod â ce'nder 'yn nhad. Ond o'dd e'n job i chi ga'l mynd mewn. O'dd pob man yn llawn.

**00.03.21: Ond o'dd peder (ohonoch chi)**

O’dd peder ‘na.

**O’ch chi’n beder ‘na i gyd?**

O’n.

**Ac o’dd hi’n dysgu chi gyd yr un pryd?**

O’dd.

**Ac am faint o amser buoch chi gyda hi te?**

Dwy flynedd.

**A beth o’ch chi’n gallu neud erbyn y diwedd?**

Neud dillad i gyd. Popeth.

**O’dd dim siop gyda hi.**

Na, dim byd. O’n i’n gwnïo i rai erill tu fas a phopeth chi’n gwbod.

**00.03.48: O’ch chi’n ca’l ych talu?**

Na, dim byd.

**00.03.49: O’ch chi ddim yn ca’l dim byd?**

Dim byd. O’n i’n talu hi. Talu hanner coron y mish. Ne’ hanner coron yr wythnos.

Rhywbeth fel ‘na. O’n i’n gorfod talu am ‘yn crefft.

**00.04.01: A beth ddigwyddodd ar ôl y ddwy flynedd te?**

Ar ôl i fi i ga’l e, o’dd hi’n mynd i gwpla a bigodd hi fi i ddod nôl i helpu ddi gliro beth o’dd ‘da ddi ar waith. Cwplodd hi wedyn.

**00.04.20: A ble ethoch chi wedyn te? Ethoch chi i witho rhywle arall?**

Na, sa i’n credu. Na, briodes i wedyn chwel. Naddo, gorfes i fynd i Morris Motors. Amser rhyfel o’dd hi. O’n i’n ca’l call up. O’n nhw’n moyn i fi fynd i Trecwm (TRECWN) ond gallen i byth â mynd i Trecwm achos newydd gladdu Dadi o’n i. Gas i ei ddiwedd yn y gwaith yn thirty eight. O’dd ‘ym mrawd ifanca, o’dd twelve years rhyngto i a fe chi’n gweld. So o’n i’n carco fe, a o’dd Dr Griffiths yn Crosshands pyr’nny, trwyddo fe des i’n rhydd. Ges i fynd i Tymbl, ges i fynd i Felinfoel.

**00.05.09: Ond o’ch chi’n ca’l call up i fynd fan’na o’ch chi?**

Amser o’ch chi’n dod i oedran, o’ch chi’n gorfod mynd.

**00.05.16: Chi’n cofio pwy flwyddyn o’dd hwnna te?**

Pwy flwyddyn o’dd hi. ‘Bytu ’39, 1939. 1940, rhywbeth fel ‘na o’dd hi.

**00.05.38: Ac o’ch chi’n ca’l call up achos y rhyfel wedyn?**

Ie, ie. O’dd pawb yn gorfod mynd chwel. O’dd lot yn mynd i Trecwm. O’ch chi’n gorfod ca’l lodgings a chwbwl man’nny. O’dd rhai erill yn mynd i Bridgend wedyn. Gwitho’r nos yn Bridgend. O’n i ddim yn gallu mynd fan’na.

**00.05.54: Chi’n nabod rhywun o’dd wedi gorfod mynd yn bell te?**

Ma’ nhw wedi ca’l ‘u claddu, rhan fwya ‘nhw.

**00.06.00: Ond o’dd hwnna siwr o fod yn rhyddhad i chi bo chi ddim yn gorfod mynd. Ma’ Trecwân lawr yn Sir Benfro.**

O’n i ddim yn gallu mynd a gadel mam chwel, achos o’dd hi wedi torri’i braich, a trw’r doctor ges i ddod yn rhydd i bido mynd. Ac o’n i’n ca’l tribunal wedyn, menyw o’dd yn byw yn High Street, Tymbl ac o’n i’n gorfod mynd i dy honna a dwy fenyw yn interviewo chi. O’n nhw’n strict. Achos o’n nhw’n moyn pawb i fynd off chwel. O’dd ‘yn ffrindie i gyd wedi mynd off ond y fi.

**00.06.35: I ble o’n nhw wedi mynd fwya?**

Trecwm.

**00.06.39: Ond ethoch chi i Morris Motors.**

Do.

**A shwd beth o’dd y gwaith fan’na te?**

Neud part ceirs o’n i. O’dd e itha da. Amser briodon ni, o’n i’n cwpla’n Morris Motors. O’n i moyn cwpla, o’n i’n ennill, o’n i’n dod gatre â eight pound twenty ac o’dd commission yn dod, ac o’dd e’n arian da. Amser briodon ni, achos bod y gŵr ddim yn twenty one, dwy bunt o’dd e’n ca’l o’r gwaith glo. Ond o’dd e ddim yn bodlon i fi witho.

**00.07.14: O’dd e ddim yn bodlon i chi witho?**

O’dd e’n gweud bod e’n gormod o ffordd i fynd i, i fynd lawr i Drefach i ddala’r bys bob bore. O’n i’n gorfod dala bys wech chwel.

**00.07.25: Shwd o’ch chi’n twmlo chwel? O’ch chi moyn cario mla’n i witho?**

Wel, bydden i wedi lico cario ‘mla’n i ga’l arian. Ond o’n i’n hapus fel o’n i.

**O’ch chi wedi gwrando arno fe te.**

O’n, o’n.

**00.07.36: Am faint o amser buoch chi’n Morris Motors i gyd te?**

Bues i yn Morris Motors tan 1945. So gwplles i pan briodes i. Ond drion nhw stopo fi i gwpla. Ond, achos bod ‘yn nhad wedi ca’l ei ddiwedd yn y gwaith, o’n i moyn cwpla achos beth sen gŵr i’n ca’l accident ne rwbeth. Bydden i’n gwitho yn fy ngofid te.

**00.08.06: O’dd rhai erill wedi cario ‘mla’n? O’dd y rhai o’dd wedi ca’l call up, o’dd rhai erill wedi cario ‘mla’n?**

O’n nhw’n cario ‘mla’n, o’dd. Lot o Llanelli. O’dd rhai, ‘na pwy buodd ‘na a buodd hi ‘na am blynnydde yn fwy na fi, o’dd Gwen – Walters o’dd hi pyr’nny. (VSW014) O’dd hi’n byw yn Parc y Mynach. A ma’ hi’n mynd ar ei ninety two, ninety three nawr, ond fi ‘di treial ffono Gwen a fi ffaelu ca’l ateb.

**00.08.38: Chi’n gw bod beth nawr, wy’ fod i fynd i weld Gwen ‘fyd. So pan af i weld hi bydda i’n gweud bo’ chi’n treial cysylltu.**

Fi ffaelu mynd ar y ffôn iddi nawr. Ma’ ddi siwr o fod yn ....

**00.09.04: O’ch chi’n gweud am Gwen nawr...**

Ma’ Gwen wedi bod yn Morris Motors fwy o flynydde ‘na fi. O’dd hi’n gwitho ‘na yr un pryd â fi. Ond gadwodd hi ‘mla’n hyd y diwedd.

**00.09.17: O'ch chi'n gweud bo' chi'n dala bys.**

O'dd bys yn dod o Bontyberem, a o'dd lot o gwŷr Pontyberem ar y bys. Ac o'n i'n mynd ar y bys 'nny.

**00.09.28: Ond o Drefach o'ch chi'n ca'l y bys?**

O Gwmmowr.

**O'ch chi'n byw yn Cwmmowr pry'nny?**

Yn Cwmmowr.

**O'dd dim rhaid i chi gerdded pellter i fynd i ga'l y bys te?**

Na, ar hewl Pontyberem o'n i'n byw.

**Ife bys y gwaith o'dd hwnna te, ne' service bus?**

Ie, bys y gwaith o'dd e. Dim ond gwŷr Morris Motors o'dd yndo fe.

**00.09.50: O'ch chi'n ca'l sbort pan o'ch chi'n mynd i witho'n Morris Motors?**

O'dd e'n gwd ichi. Wonderful. O'n i'n mynd mas wedyn 'nny i ga'l cino, a o'n i'n mynd i siop fach fan'nny. Ma' fe wedi ca'l ei dynnu lawr nawr, o'n i'n mynd i'r siop ac o'dd menyw fach yn byw 'na wrth ei hunan, a o'dd hi yn y siop, ac o'n i'n ca'l dished o de. Ac o'n i'n mynd â sangwejes 'da ni. O'n ni'n hala'n amser ni fan 'nny. Amser Nadolig wedyn 'nny, o'n ni gyd yn rhoi rhywbeth bach iddi. O'dd hwnna gwd chi'n gwbod.

**00.10.19: O'dd dim cantîn na dim byd fel 'na'n y gwaith te?**

Sai'n siwr. Na, sa i'n credu o'dd cantîn 'na pry'nny.

**00.10.31: Pwy o'dd yn gwitho 'na fwya te. Ife menywod ne dynon?**

Menywod o'dd 'na fwya. Le o'n ni, yn siop 3, dim ond menywod o'dd 'na. A neud radiators o'n i, i'r ceirs, so, ie.

**00.10.49: Chi'n cofio'r diwrnod cynta' dechreuoch chi 'na?**

Do, ar goll. Ac o'n ni'n gorfod mynd i weld, ca'l interview gyda Miss Wishard. Jiw, 'na fenyw strict. A o'dd hi'n gweud, 'can you do this' a 'can you do that', 'have you been working', 'doing whose jobs', 'are you going regular', 'hows' your health'. O'n nhw'n holi chi popeth.

**00.11.11: Fel interrogation te o'dd e?**

O'dd e'n terrible, terrible.

**00.11.18: Beth o'dd y lle'n edrych fel? O'ch chi'n byw yn Cwmmowr fan 'na, o'ch chi'n mynd lawr i Llanelli, o'dd e'n twmlo'n ddiarth?**

Na, o'dd e'n gwd. O'n i'n, o'dd y bys yn sefyll ar dop y gât, o'n ni gyd yn cerdded lawr, ac o'dd 'da ni carden i sieco mewn, cyn bod ni'n mynd mewn.

**00.11.36: O'dd e'n waith brwnt te?**

Nago'dd, dim yn frwnt. Ond, o'dd e'n waith caled achos o'dd y radiators, o'ch chi'n gorfod pwsho fe, y thing bach mewn, o'ch chi'n iwso'ch dwylo, o'ch chi ar ych tra'd, ddim yn gallu ishte lawr.

**00.11.54: Pwy amser o'ch chi'n dechre wedyn?**

Saith yn y bore?

**00.11.58: A pwy amser o'ch chi'n cwpla?**

Am bump.

**O'dd e'n ddiwrnod eitha' hir te?**

O'n i'n ca'l awr i gino, 'na i gyd.

**O'ch chi'n ca'l brêc yn y bore?**

Na. O'dd dim brêc o gwbl. Dim ond ca'l awr o amser off. A ma' pethach wedi altro nawr. Ma' nhw'n ca'l brêcs nawr. Dim pyr'nny. Dim byd.

**00.12.29: O'ch chi'n gweud i ga'l y swydd 'na, o'ch chi wedi ca'l call up o'ch chi ddim wedi mynd i while am y swydd?**

Nagon, o'n i ddim wedi mynd i while. Gorffod mynd nethon ni. A o'dd tai o' ni o Tymbl wedi gorffod. O'dd y dair o' ni wedi ffaelu mynd i Trecwm. A geson ni interview a 'na pwy o'dd hi, mam yng nghyfreth Vivian, Tynton, y siop shoes. O'dd hi'n fenyw strict ofnadw. Ofnadw.

**00.13.00: 'Na 'i gwaith hi ife, mewn ffordd.**

O'dd hi moyn i bawb i fynd i Trecwm.

**00.13.04: Bydde well 'da hi bo' chi wedi mynd i Trecwn te?**

O'dd, o'dd. Achos o'dd lot wedi pallu mynd 'man'nny chwel. Ond buodd tair o' ni wedyn – Lil Mann, o'dd hi'n briod â bachgen o Bontyberem, a Winnie. Ond ma' nhw i gyd wedi claddu. Ychydig, wel sdim lot o' ni ar ôl.

**00.13.25: O'ch chi siwr o fod yn dreddo hwnna. O'dd Sir Benfro yn bell, bell pyr'nny.**

O'dd. Ac o'dd rhaid i chi while am lodgings 'na wedyn.

**O'n nhw ddim yn ffindo lodgings i chi?**

Na, o'ch chi'n gorfod while am rwle ych hunan. So o'dd un ffrind 'da fi wedi mynd 'na. O'dd hi'n byw ochor isha. O'dd hi wedi mynd 'na ac o'dd hi'n gweud o hyd, 'pam wyt ti wedi ca'l mynd i Morris Motors, a fi wedi gorffod mynd fan'na?' O'dd dynon a chwbl yn gwitho man'nny. A dim ond menywod o'dd yn Bridgend. O'n nhw'n gwitho shift nos. Amser o'n i'n mynd i ddysgu gwnio yn y bore, o'n nhw'n ddod gatre o shift nos.

**00.14.01: O'dd shifts yn Morris Motors te?**

Na, sa i'n credu o'dd shift. Na, sa i'n credu o'dd shift yn Morris Motors. Da'th shift wedyn, fi'n gwbod. Na. Dim ond diwrnod. A dynon o'dd y supervisor arno ni. Ond menywod o'dd yn gwitho 'na i gyd.

**00.14.24: O'dd dynon yn neud y radiators fel o'ch chi'n neud te?**

Nagon. Merched o'dd yn neud rheina i gyd. Ond o'dd charge hand 'da ni, wedyn. Dynon o'n nhw.

**00.14.36: O'dd dim cyfle 'da menywod i fynd yn charge hand neu yn supervisor?**

O'dd un fenyw 'da ni wedi mynd yn charge hand.

**00.14.42: O'dd hi'n well 'na'r dynon?**

Na, dim rili. Chi'n gwbod, o'ch chi'n gallu explaino i'r dynon yn well. O'n nhw'n cymryd mwy o ddiddordeb yndo chi.

**00.14.57: Ffatri geir o'dd hi ife. O'ch chi'n gweud bod y dair o' chi wedi mynd o Tymbl. Dechreuoch chi ar yr un diwrnod?**

Do.

**O'dd cwmni 'da chi wedyn. So o'ch chi'n twmlo'n fwy cartrefol?**

Ac o'dd Shop Three ble o'n i'n mynd i neud radiators, 'na'r siop ore o'dd 'na. 'Na'r lle gore. Achos o'dd y rhai erill o'n nhw'n fwy caled. O'dd dynon a chwbl yn gwitho man 'nny.

**00.15.28: Beth am y bobl erill gwrrddoch chi lawr 'na? O'ch chi'n cwrdd â pobl o wahanol bentrefi?**

O'n i'n cwrdda lot. Rhai o Casllwchwr. Rhai o Neath. O'n nhw'n dod o bob man. A lot o Llanelli. A ma' un ferch yn byw yn Llanelli nawr, Mavis Chowing yw enw ddi, ni still yn ffrindie. O'dd hi'n dod lan i ty ni amser o'n ni'n byw yn hewl Caerfyrddin, o'dd hi'n dod lan yn regular i weld fi. Bob Nadolig fi'n ca'l carden wrthi ddi, a phone call.

**00.16.04: O'ch chi'n ffrindie mowr te?**

O'n ni yn. O'n ni'n gwitho 'da'n gilydd.

**00.16.07: O'ch chi'n ca'l lot o sbort te?**

O'ch chi'n ca'l lot o sbort, ond chi'n gwbod pyr'nny, o'ch chi'n mynd 'na ar fore dydd Sadwrn. O'ch chi'n gwitho ar fore dydd Sadwrn. Chi'n mynd 'na ar fore dydd Sadwrn yn gwrlin pins i gyd ... a wedyn cwrdda y gŵr yn y dre. 'Na le o'n i wedyn yn taclu cyn mynd o' 'na a'r cwrlin pins off. Ma' pethach wedi altro.

**00.16.39: O'dd e'n swllyd 'na te?**

Na. O'dd lot o sw'n, o'dd, chi'n gwbod gyda'r gwaith chi'n gwbod.

**00.16.48: O'ch chi'n gallu siarad, chi'n gwbod?**

O'ch, o'ch. O'dd y supervisor yn dod rownd a watshan. Gwedwch bo' fi fan hyn a rhywun draw fan'na, o'ch chi ddim yn gallu siarad tra bo' chi'n gwitho.

**O'ch chi ddim yn ca'l siarad? Falle bydde fe ddim yn effeithio'r gwaith. O'ch chi'n hapus bo' chi ddim yn ca'l siarad?**

O'n i'n itha hapus. Wel, bydde hi'n gweud wedyn, gwedwch bod chi'n mynd i'r toilet, bydden ni'n treial gweud rhwbeth wrth ein gilydd bydde'r ddwy o' ni'n mynd i'r toilet. Byddech chi'n gallu siarad man'nny.

**00.17.18: Byddech chi'n gallu ca'l chat bach fan 'na wedyn.**

Fel 'na wedyn. 'Na i gyd o'ch chi'n neud. Ond o'dd y supervisor, merch o'dd hi, o'dd hi'n strict. O'dd hi'n watshan bod chi, o'dd hi'n mynd rownd a watshan bod chi'n neud ych gwaith yn iawn, a popeth. A sech chi'n neud mistake ..

**00.17.33: O'ch chi'n ca'l row?**

Terrible.

**00.17.36: Beth o'n nhw'n neud te os o'ch chi wedi neud mistake?**

O’dd hi’n gweud, ‘You’ll have to do it all over again’. Ac o’ch chi’n gorfod ailneud nhw i gyd. Dim ond ni’n Tymbl o’dd yn siarad Cymra’g. O’dd y rest i gyd yn Saesneg.

**00.17.51: O’dd hwnna’n twmlo’n whith i chi?**

Na, dim rili achos amser o’n i’n gwitho’n Hadfields, oedd e’n Gwmra’g i gyd yn y bys yn mynd ‘na, a unwaith o’n i’n cyrra’dd y siop, o’dd e’n Saesneg i gyd. Ond o’dd y merched yn gweud gethon nhw ddim chance i ddysgu yn ysgol. O’n nhw moyn dysgu Cwmra’g, o’n nhw ddim yn ca’l chance.

**00.18.13: Pryd ethoch chi i Hadfields wedyn te?**

Ethes i i Hadfields ar ôl 19.. 1960 fi’n credu ethes i i Hadfields.

**00.18.27: Chi’n gwbod pan o’ch chi’n Morris Motors wedyn, chi’n gweud o’n nhw’n itha strict, beth o’dd y rules te?**

O’dd y rules – no talking, concentrate on your worki, o’n nhw’n gweud, chi’n gwbod.

**Achos mewn ffordd, nege chi o’dd wedi dewish i witho ‘na.**

Ond, y diwrnod cynta’ o’ch chi’n mynd ‘na, o’ch chi’n gorfod gweud date of birth, name and address, next of kin, o’n nhw moyn gwbod popeth, ych busnes chi gyd. O’n nhw moyn gwbod popeth.

**00.19.05: O’dd accidents yn digwydd ‘na ambell waith te?**

Na, glywes i ddim am accidents ‘na. O’dd ffrind ‘da fi, a da’th hi, a briododd plisman a buodd e’n sarjant yn Crosshands, a ‘na beth sy’n od ymbytu fe, ma’n byw yn Aberaeron, a ma’ fi ar y ffôn yn gyson. Ma’ fe yn neis. ‘Na’r unig ddwy sydd ‘da fi.

**00.19.30: Faint o’dd yn gwitho ‘na i gyd te, wedech chi?**

O’dd lot yn gwitho ‘na. O’dd siwr o fod pedwar i bump cant ‘na. O’dd lot ‘na achos o’dd sawl siop ‘na chwel. Ac o’dd tad ‘y mhartneres wedyn, yn Security ar bwys y gât. Achos o’ch chi ddim yn ca’l mynd mewn os nagoch chi’n dangos ych carden. O’dd rhaid bod nhw’n gwbod pwy o’ch chi, bo’ch chi yn gwitho ‘na.

**00.19.58: O’ch chi wedi newid job tra bod chi ‘na? O’ch chi’n neud y radiators, nagoch chi, o’ch chi wedi mynd i neud rhywbeth arall yn yr amser o’ch chi ‘na?** Na, o’n i’n stico’n Morris Motors tra bues i ‘na. ‘Na pryd gwplles i o’dd 1945, amser, y gŵr chwel, o’n i ddim yn gallu mynd wedyn.

**00.20.18: Pan o’ch chi ‘na pwy odd wedi dysgu chi fel i neud y gwaith te?**

Y supervisor o’dd yn dod rownd a gweud ‘tho ni beth i neud.

**00.20.25: A dyn o’dd hwnna wedyn?**

Na, menyw. Menyw.

**00.20.32: A fel o’ch chi’n gweud wedyn ‘nny, pan o’ch chi’n priodi, o’ch chi’n rhoi’r gore.**

Do, o’n gorfod mynd i weld y bosys wedyn. A tri dyn yn ishte yn yr offis, ac o’n nhw wedi hala ôl fi mewn, a gofyn, ‘Why do you want to finish?’ A wedes i, ‘I’m getting married’, ontyfe. ‘Well, why don’t you carry on?’ ‘I can’t’, wedes i. ‘My husband is a miner’, wedes i wrthyn nhw. A wedon nhw, ‘that doesn’t make any difference’. ‘Yes, it does’, wedes i. ‘My father was killed in the colliery. What if anything happened to my husband, an accident



or something, it's a dangerous job.' A wedodd e, 'we can't decide now. We'll see in again. O'n nhw'n pallu releaso fi'n straight. O'n i'n cwpla yn Morris Motors ar ddydd Sadwrn. O'n i'n priodi y dydd Mercher ar ôl 'nny. Gorfes i witho reit hyd y diwedd.

**O'n nhw wedi ca'l pob cinog mas ohono chi.**

O'n. O'n nhw'n gwd. O'ch chi'n ca'l comisiwn ar ben ych pai, wedyn chwel. Jiw, o'dd arian da 'na chwel.

**00.21.44: O'ch chi ddim yn ca'l ych talu wrth yr awr te, o'ch chi'n ca'l fel pai ife?**

Wel, bob wsnoth fi'n credu, dim wrth yr awr. Bob wsnoth o'n i'n ca'l e, a wedyn amser o'n nhw 'di neud y cwota neu fwy nawr, neud y cwota i gyd, o'dd comisiwn mawr yn dod 'na, a odd e'n mynd rhynt y staff i gyd. O'dd e'n gwd.

**A faint wedoch chi o'ch chi'n ca'l bob wthnos?**

O'n i'n dod gatre â bytu peder neu bump punt. Four to five pound bob wthnos ond pan gwplles i, ges i'r commission a phethach mas, ges i 'bytu eight pound ninety ne rwbeth ac o'n i'n meddwl i'n hunan, fi'n rich.

**A beth o'ch chi'n neud â'r arian te?**

O'n i wedi priodi chwel a wedyn, dwy bunt o'dd y gŵr yn ca'l chwel.

**00.22.37: Beth o'dd e'n meddwl am 'na te?**

Dishgwyl faint o arian sen i'n ga'l sen i'n stico i witho. "Na, so ti yn".

**00.22.50: O'dd dim shwd beth ag undeb i ga'l fan'na te?**

Na, dim byd pyr'nny. Wedyn. Da'th undeb yn Tymbl cofiwch, ffatri. O'dd undeb 'da nhw fan'na. Ond o'ch chi'n, amser o'ch chi'n mynd i ffatri Tymbl, o'ch chi ddim, o'ch chi'n ôl ych carden a sieco mewn, na i gyd o'ch chi'n neud fan 'na. O'dd neb yn sieco chi mewn ar bwys y drws ne dim byd.

**00.23.16: Ond pan o'ch chi'n Morris Motors, o'ch chi'n gwitho 'na pan o'ch chi'n fenyw shingel, o'ch chi wedi colli'ch tad, o'ch chi'n helpu'ch mam wedyn, chi'n gwbod, gyda'r arian?**

O, o'n. O'n i'n helpu ddi i dalu rêts pyr'nny. O'dd pethach yn wahanol pyr'nny.

**00.23.35: A pan o'ch chi'n Morris Motors o'dd y gwithwyr yn ca'l 'u trin yn deg?**

O'n, itha teg.

**Ond o'n nhw yn gwitho chi'n galed.**

O'n nhw'n itha da.

**00.23.48: O'ch chi'n gorfod gwishgo rhwbeth speshal yn Morris Motors?**

O'n. O'n i'n gorfod ca'l overalls

**00.23.56: O'n nhw'n rhoi rheina i chi?**

Na. Chi'n mynd â overall ych hunan.

**00.24.02: O'dd y gwaith yn beryglus?**

Na, dim rili. Dim le o'n i'n Shop 3, yn parte erill o'dd e yn, yn ddansherus.

**Ond o’dd menywod yn neud gwaith o’dd yn ddisherus?**

O’dd. O’dd rhai yn. O’dd un lle, y dipper o’n nhw’n galw fe. O’dd acid a pethach ‘na. O’n nhw’n gorfod bod yn ofalus man’nny chwel.

**00.24.30: O’dd e’n frwnt ‘na te?**

Na. O’dd e ddim yn frwnt.

**00.24.36: O’dd y toilets a popeth yn iawn.**

O’dd, popeth. O’dd rheiny’n iawn. A o’dd y toilets yn lyfli. O’ch chi’n gallu mynd, chi’n gwbod, ond gwedwch chi bod chi’n mynd i’r toilet, bydde’r supervisor, bydden i’n gorfod gweud ‘thi, ‘Can I go to the toilet please’. ‘Yes, go’, o’dd hi’n gweud, chi’n gwbod. O’dd hi ddim yn stopo chi o gwbl. O’n nhw’n gwd chi’n gwbod.

**00.25.02: O’dd e’n oer ‘na?**

Wel, o’dd rili. Achos fi’n cofio, o’n i ddim yn gwbod beth o’dd gwishgo trwser, o gwbl, a fi’n cofio ffrindie’n gweud ‘tho fi, gwishg trwser. Sdim i ga’l ‘da fi medde fi. Ac o’dd Wyn yn tŷ ni ar y pryd, a wedodd Wyn, ma’ trwser newydd ‘da fi, daf i lawr â trwser. A pyr’nny dechreues i wishgo fe.

**O’dd e’n ffito.**

O’dd. O’dd e’n slim chi’n gwbod. A fi’n cofio’n net, ‘na pryd wishges i drwser cynta. Ond o’dd ishe trwser achos o’dd hi’n oer ofnadw yn y ffactri. O’dd hi yn o’er. O’n i yn ‘yn woollens i gyd chi’n gwbod.

**O’dd e’n o’r ar y dwylo wedyn?**

O’dd. O’n i’n gwishgo menyg fi’n credu, a o’n ni’n gorfod mynd wedyn, hongian ‘yn cote yn y, o’dd lle ‘na i hongian cote i bobman, chi’n gwbod. A pawb yn mynd mewn man’na i hongian ‘u cote.

**00.26.01: O’ch chi’n gwishgo rhwbeth am ych gwallt te?**

O’n. O’dd cwrlin pins ‘da ni o hyd, a o’n ni’n doddi sgarff wedyn rownd ych pen chwel, mwffler.

**00.26.13: O’ch chi’n gweud, o’ch chi’n gwitho dydd Sadwrn ‘fyd.**

O’ch. O’ch chi’n gwitho bob dydd.

**Dim dydd Sul.**

Na.

**So, dydd Llun ...**

.. dydd Mawrth, dydd Mercher, dydd Iau, dydd Gwener, a dydd Sadwrn.

**00.26.26: Beth o’ch chi’n neud ar ddydd Sul wedyn?**

O’n i’n mynd i’r cwrdd ar ddydd Sul.

**So o’ch chi ddim yn ca’l diwrnod off mewn ffordd.**

Nagon o’n i ddim yn. A chi’n gwbod, o’n i’n mynd gatre o’r gwaith yn y nos, o’n i wedi blino. Yn amal, elen i i’r gwely am whech.

**Drw’r nos?**

O'n. O'n i ddim yn codi wedyn. O'n i'n gorfod codi am bump y bore ar ôl 'nny chwel. O'dd mam, amser o'n i'n gwitho, o'dd mam yn neud bwyd i fi, chwel. O'dd bwyd yn barod i fi pan o'n cyrra'dd gatre. So, unweth o'n i'n ca'l bwyd, o'n i 'di blino. Falle elen i i'r bath. Wel, o'dd dim baths 'da ni pyr'nny, jest. O'n i'n ca'l gwd wash gyda padell o fla'n tân. Ar nos Wener wedyn, o'n i'n sefyll iddyn nhw gyd i fynd i'r gwely. A chi'n gwbod, open fire, a o'n i â padell fan'nny a man'nny o'n i'n batho.

**00.27.14: Pethach yn wahanol nawr ondy' nhw?**

Ma' pethach yn wahanol nawr.

**00.27.20: O'ch chi'n mynd mas ar nos Sadwrn te?**

Wel, ar ddydd Sadwrn, o'n i yn Morris Motors. Wel, o'ch chi'n gwisgo mwy teidi pyr'nny ife. A chi â cwrlin pins yn ych gwallt, a wedyn o'n i'n cwrdda â'r sboner pyr'nny. O'n i'n cwrdda fe, o'dd e'n dod â bys, a o'n i'n cwrdd â fe'n dre. Wedyn, elen ni i'r pictures. Wel, erbyn bo' chi'n gatre, wel o'dd hi'n mynd bytu wyth o'r gloch nawr, naw o'r gloch ife.

**00.27.49: O'ch chi ddim yn ca'l lot o amser i weld Wyn siwr o fod.**

Nagon, na. O'n i byth, yn yr wsnoth. Dim ond dydd Sadwrn, a dydd Sul ife. So i'n mynd i'r cwrdd ar ddydd Sul wedyn.

**00.28.03: O'dd e'n mynd i'r un cwrdd â chi?**

Na. I Capel Seion o'dd e'n mynd.

**00.28.09: O'dd rhai'n smoco yn y ffatri te, yn Morris Motors?**

O'ch chi ddim yn ca'l smoco mewn 'na.

**00.28.16: Beth os o'dd rhywun yn moyn mwgyn bach? Beth o'n nhw'n neud?**

O'n nhw'n mynd i'r toilet.

**00.28.19: O'n nhw fod i neud e?**

O'n nhw'n gallu neud e pyrny.

**00.28.25: Ydych chi'n credu bod y gwaith o'ch chi'n neud pyr'nny wedi effeithio – gwynegon neu unrhywbeth fel 'na?**

Sa i'n gwbod. O'n i ar 'yn dra'd lot. Falle bod e wedi chwel. Achos amser o'n i'n gwitho yn yr hospital wedyn, o'n i ar 'yn dra'd trw'r amser. Ma' fe bownd o fod wedi, yn ffatri Tymbl, ar ych tra'd. Ma' fe bownd o neud rhwbeth.

**00.28.51: Ma'r coese'n ca'l hi wedyn.**

Odyn.

**00.28.55: A shwd o'dd y menywod erill yn Morris Motors yn trin chi?**

Gwd. O'n nhw'n iawn. O'dd pawb yn unol, chi'n gwbod.

**00.29.05: Beth o'ch chi'n neud i ga'l sbort te? (Fi'n gwbod o'ch chi'n gwitho'n galed.)**

O'dd parti wedyn, diwedd y flwyddyn, amser o'ch chi 'na. A nethon nhw barti i fi wedyn, achos bod fi'n cwpla. Buon nhw'n casglu wedyn i ga'l rhoi present.

**00.29.27: Beth gesoch chi te? Gesoch chi arian ne o'n nhw wedi pyrnu rhywbeth i chi?**

Sa i'n cofio i weud y gwir wrthoch chi. Na, pyrnu rhwbeth wy'n credu nethon nhw, chi'n gwbod. Ac o'dd y bosys a chwbl wedi seino arno fe.

**00.29.40: O'dd pawb yn dod mla'n 'da'r bosys?**

O'n nhw'n dod 'mla'n yn gwd 'da nhw.

**00.29.45: O le o'dd y bosys yn dod te?**

O sa i'n gwbod. O Abertawe, a pethach fel 'na. O'dd siwr o fod ffactri arall 'da nhw'n rhwle chwel.

**00.29.55: O'n nhw 'na drw'r amser?**

Na. Amser o'dd rhywun yn cwpla o'n nhw'n dod 'na a interviewo nhw. Os byddech chi'n hwyr yn cyrra'dd yn y bore, o'n i wastod yn gynnw'r chwel, o'dd y bys yn gynnw'r 'da ni.

**O'dd dim dewish 'da chi.**

O'dd lot o ferched o Llandybie 'da ni, o Ammanford, o Pontyberem, yn gwahanieth bysus o'dd rheina wedyn.

**00.30.20: O'ch chi ddim wedi colli'r bys unwaith?**

Na. Fi'n cofio un diwrnod o'dd yn ffrind yn byw yn hewl arall, a o'dd hi'n dod lan i ty ni. 'Jiw, dere, siâp hi, bydd y bys yn dod nawr'. O'n i'n rhedeg lawr, o'n i'n gweld y bys yn dod o hewl Drefach. O'n i'n rhedeg lawr, ac o'n ni'n gorfod mynd â llwy a pethach 'da ni, chi'n gwbod. Jiawch colles i'r lwy ar yr hewl, ac o'dd dim amser i bigo ddi lan. O'n i'n gorfod rhedeg.

**00.30.44: Llwy i fyta bwyd?**

Ie.

**00.30.49: Os o'ch chi'n colli'r bys, o'ch chi'n colli shifft wedyn.**

Bydden, bydden.

**O'dd rhai'n neud 'nny te?**

Fi'n cofio 'yn nghe'nder nawr ten, yn gwitho'n Morris Motors. Wel, fi 'di ca'l colled ar 'i ôl e. Farwodd e o fla'n y gŵr. Buodd e yn Morris Motors am forty years, dim colli diwrnod a collodd e ddim diwrnod. A chi'n gwbod os bydde hwnna'n cysgu'n hwyr, o'dd e'n dod draw i ty ni. Ac o'n ni'n gweld cerrig wrth y ffenest, ac o'n i'n mynd lawr â fe i'r Morris Motors, am wech yn y bore. O'dd e byth yn colli tyrn.

**00.31.27: O'dd e'n gydwybodol iawn te?**

O'dd e yn.

**00.31.33: O'n i'n gofyn i chi gynne ymbytu beth o'ch chi'n neud i ga'l sbort. O'dd tynne co's? O'ch chi ddim yn ca'l lot o gyfle i siarad?**

Na. O'ch ddim yn gallu siarad lot ond amser o'n i'n ca'l, o'dd un ferch yn neud partis chi'n gwbod. 'Come on, let's all join, let's all go to Cornerhouse, or let's all go by here'. Ac o'n ni gyd yn mynd wedyn, ac o'dd sbri 'da chi wedyn chwel ife.

**Sbri tu fas y gwaith wedyn ife?**

Tu fas y gwaith.

**00.32.04: O ystyried nawr, o'ch chi ddim wedi dewish i fynd 'na, ond shwd o'ch chi'n twmlo ymbytu gwitho 'na?**

O'n i'n enjoio 'na wedyn. Achos o'ch chi'n enjoio gyda'r crowd. O'ch chi'n dod i nabod merched yn wahanol, gwahanieth chi'n gwbod ife.

**00.32.25: O'ch chi'n gweud bod chi'n gorfod cloco mewn?**

O'n. O'n i'n gorfod cloco mewn, ac wrth hwnna o'n nhw'n talu chi wedyn.

**00.32.32: Gwedwch chi bod rhywun yn hwyr o'dd modd i rywun arall i gloco mewn iddyn nhw. O'dd hwnna'n digwydd mewn rhai llefydd o'dd e.**

O'dd rhai yn neud e, ond yn y diwedd o'dd y chargehand yn watshan bod chi ddim yn.

**00.32.50: O'n nhw'n gofyn i chi witho dros yr orie ambell waith?** Na, o'n nhw ddim yn gweud 'tho ni achos o'n i'n gorfod dala bys. Ond amser yr eira wedyn, o'dd e'n dod ac o'dd e'n gweud, 'All people going with the Ammanford bus, you'd better go now because the buses are on stop.' 'You can go home now'. O'n i'n ca'l mynd gatre wedyn, ac o'n i'n gorfod cerdded gatre. Sawl gwaith cerddon ni o Felinfoel.

**I Cwmmowr?**

I Cwmmowr. Ac o'n i'n wherthin. Chi'n gwbod. A lan y tyle top Tymbl, o'dd merched o'r tin works hefyd wedi dod gatre, a chi'n gwbod fel o'n i'n neud, ni gyd yn cydsho yn 'yn gilydd a slidro lawr i High Street, Tymbl. O'dd e yn brofiad chi'n gwbod.

**Faint o amser o'dd hwnna'n hala chi te, achos mae'n milltiro'dd. Sawl milltir chi'n credu?**

Bytu naw milltir. Wel, o'n ni gyd wedi blino, chi'n gwbod. O'dd yr eira pyr'nny, chwel. O'n ni'n ca'l lot o eira pyr'nny nagon ni. Ond dim nawr.

**00.34.19: O'ch chi'n ca'l holides wedyn?**

O'n i'n gwitho dydd Llun i dydd Sadwrn ond amser Nadolig a banc holidde o'ch chi off.

**O'dd pawb off?**

O'dd pawb off, o'dd y ffatri ar gau wedyn.

**00.34.36: Gwedwch chi bod angladd ne rwbeth 'da chi te. Beth o'ch chi fod i neud wedyn?**

Gofyn am permission. O'ch chi'n gorfod gofyn os gelech chi permission i ga'l time off.

**00.34.44: O'n nhw'n itha da?**

O'n. O'n nhw'n gwgd. Amser o'ch chi yn gofyn o'ch chi yn ca'l e.

**00.34.50: O'n nhw'n tynnu arian wrth y pai wedyn?**

O'n siwr o fod. Yn ôl y garden, amser o'ch chi'n sieco mewn, amser o'ch chi'n sieo mas, ma'r orie ar y garden. A pyrnu o'n nhw'n gwbod faint o orie o'ch chi wedi gwitho.

**00.35.06: Gwedwch chi bod rhwbeth pwysig fel angladd allech chi ddim neud yr orie lan rhywbryd arall allech chi?**

Na.

**00.35.23: O’ch chi’n sôn nawr ymbytu chi gyd yn ca’l sbort, mynd mas ar ôl gwaith, ne’n mynd i ... beth wedoch chi o’dd enw’r lle ‘na?**

Y Cornerhouse. A chi’n gwbod beth o’dd Cornherhouse – siop chips o’dd hi. Ac o’n nhw i gyd fan’nny chwel.

**Yn Llanelli?**

Ie. A fel hyn o’dd e. Mae’i ‘di ceued nawr. A fi’n cofio’r fenyw o’dd yn syrfo ‘na, a’r dyn. ‘Here comes the gang’, o’n nhw’n gweud. A chi’n gwbod beth o’n nhw neud, gweud jôcs a pethach fel ‘na chwel. Yn anffodus, o’n i’n gorfod mynd achos y bysus chwel. O’dd lot ohonyn nhw’n byw yn dre o’n nhw ddim yn gorfod ca’l bys chwel.

**00.36.06: O’dd lot o’r dynon, o’n nhw ddim wedi ca’l ‘call up’ te, y dynon o’dd yn y ffatri?**

Y dynon o’dd yn y ffactri chwel, sa i’n gwbod, wel o’dd lot ohonyn nhw o’n nhw siwr o fod wedi mynd i’r ffactri yn ifanc chwel a ddim yn, o’n nhw man’nny chwel, o’n nhw ddim yn ca’l call up wedyn.

**O’n nhw’n henach te?**

O’n, o’n nhw’n henach.

**00.36.33: O’dd rhwbeth fel parti Nadolig, ne o’dd y gwaith ddim yn trefnu unrhyw entertainment ne rwbeth i chi?**

O’dd. O’n nhw wedi decoreto, o’dd. O’n nhw’n canu wedyn, yn canu carols a pethach fel ‘na chi’n gwbod. O’dd hi’n gwd amser Nadolig ‘na.

**00.35.50: Ond o’ch chi’n gorfod gwitho’n y gwaith, o’ch chi ddim yn gallu stopo.**

O’ch chi fod i witho’n continuous, o’dd dim iws i chi i stopo.

**00.37.04: O’dd radio ne rwbeth ‘na i chi ga’l gwranddo arno fe.**

O’dd rhwbeth ‘na siwr o fod. Ond fi’n cofio Ceinwen Perkins o’dd hi, o Felinfo’l. Briododd hi â Owens Travel agent. Amser briododd y grandson ethon ni fan’nny i ga’l bwyd a Ceinwen weles hi. A wedodd hi, ‘fancy seeing you here’, wedodd hi. A rhoiodd hi botel o champagne i fi. Fi’n mynd nôl nawr blynydde wrth gwrs.

**O’ch chi a Wyn wedi ca’l hwnna wedyn?**

Na, amser briododd y grandson.

**00.37.49: Edrych nôl ar ych amser chi fan’na nawr ydych chi’n gallu meddwl am un peth sy’n aros yn y cof, chi’n gwbod, pam ych chi’n meddwl am yr amser ‘na?**

Wel, o’n i’n ca’l lot o sbri yn y bys yn mynd a dod nôl, chi’n gwbod. Local crowds ife.

**00.38.09: O’ch chi’n canu ar y bys?**

O’n. Amser Nadolig o’n nhw’n canu popeth. Amser o’n ni’n cwpla nawr i briodi, o’n nhw gyd yn canu auld lang syne i fi. A lot o’ nhw o Bontyberem, Bancffosfelen, lot o locals chwel ife. Ac o’dd Gwen arno fe wrth gwrs. A briododd Gwen wedyn chwel, a bachgen o Cefneithin, ond sa i’n gwbod beth o’dd. P’un o’dd Gwen yn un gas ne beth. O’n nhw’n gweud bod hi wedi cloi fe’n y sied a pethach. A geson nhw divorce, a nawr, o’dd y gŵr o’dd ‘da ddi nawr – Gareth – o’dd e’n briod a dwy ferch ‘da fe. A o’dd e’n cadw’r Black Lion, Black Lion Hotel yn Gorslas. Ond o’dd yn ffrind yn gweud ‘tho fi bod y ffrind yn dod lan yn amal, so o’dd wha’r Gwen nawr, Lil, wedodd Lil wrtho i, gwrandda May beth o’dd hi moyn

priodi hwnna. A wedodd e, fi ffaelu dod drosto ddi wedes i. A wedai 'tho ti wedodd hi, o'dd hi wedi pyrnu car iddo fe, wedodd hi.

**O'dd e'n lwcus te.**

A ma' fe wedi marw chwel. A o'dd dwy ferch 'da fe a o'dd un o'r merched yn dod i watshan e pan o'dd e'n ca'l 'i bensiy. Ac o'dd e ddim yn rhoi dim i Gwen. O'dd e'n rhoi fe i'r groten.

**00.39.38: Wrth edrych nôl nawr, shwd ych chi'n teimlo am ych amser chi fan 'na?**

Wel, fi 'di bod yn hapus drw'r cwbl. Chi'n gwobod beth yw e, fi'n easy going. Se rhywun yn cwmpo mas o'n i ddim yn cadw digofaint, chi'n gwobod.

**O'dd rhai'n cwmpo mas 'na?**

O'dd rhai yn jealous bod nhw'n ca'l gwell job 'na'r llall, chi'n gwobod. Wel, dyw hwnna ddim gwerth.

**00.40.08: O'ch chi'n gwitho gyda'r un bobol trw'r amser. O'ch chi ar bwys yr un bobol?**

O'n. Mwy neu lai. Ond pam o'n nhw'n gweld chi'n neud yn dda, o'n nhw'n symud chi i ga'l man arall chwel.

**00.40.20: O'ch chi'n ca'l fwy o arian wedyn?**

O'n, o'n.

**00.40.24: Falle o'dd hwnna'n hala rhai pobol.**

O'dd, o'dd. O'dd rhai o' nhw'n wael chi'n gwobod, ddim yn gallu neud dim byd. O'n nhw'n hopeless.

**Beth o'dd yn digwydd i nhw wedyn te?**

Wel, o'n nhw'n ca'l warning wedyn, bod rhai iddyn nhw dynnu bys mas. Chi'n gwobod beth o'n nhw neud, yn barod i siarad a ddim i ymroi chwel. Ac o'ch chi ddim fod i neud 'na. Enjoies i yn Morris Motors cofiwch. 'Dden i wedi enjoio cadw 'mla'n.

**00.40.55: Shwd o'ch chi'n twmlo am gwpla te, os o'ch chi wedi, o'ch chi a Wyn wedi cytuno ife. Shwd o'ch chi'n twmlo? Chi'n cofio'r diwrnod diwetha gethoch chi te?**

Odw. O'n ni'n priodi ar April, April the 18th, 1945. O'n i'n cwpla sha ar ddydd Sadwrn, fifteen, sixteen, eighteen dydd Mawrth ... O'n i'n cwpla ar y fifteenth fi'n credu o April, achos o'ch chi'n gorfod gwitho tan y diwedd chwel.

**00.41.33: Shwd o'ch chi'n twmlo wedyn 'nny yn gwitho 'na am y tro diwetha?**

Yn olreit, chi'n gwobod. O'n nhw i gyd yn y bys yn gweiddi arno i chi'n gwobod, a'n poeni chi ife. O'n nhw i gyd yn neud 'na. O'dd lot o ddynon o Bontyberem yn gwitho 'da ni. Lot o ddynon. Bryn Pems, sa i'n credu byddech chi'n nabod e. Bryn Pems yn gwitho 'na. A pwy arall o'dd yn gwitho 'na. A'th rheiny wedyn, a ethon nhw i'r gwaith glo. Ond le o'n nhw'n gwitho, o'n nhw ddim yn yr un man â 'nny, chwel. Nagon nhw'n neud yr un parts. Parte trwm, dynon o'dd 'na, a dim ond dynon.

**00.42.24: Ni'n mynd 'mla'n i siarad am ffactri Tymbl mewn muned. Chi'n moyn rest?**

Nagw i.

**00.42.32: Cwploch chi man'nny a buoch chi gatre. Am faint o amser buoch chi, achos ethoch chi i Hadfields wedyn dofe? Ife 'na'r peth nesa nethoch chi?**

Bues i gatre am sbel. Amser farwodd wncwl y gŵr, o'dd doctor yn gweud bod rhaid i fi fynd mas bob dydd. Elen i ddim mas, so weles i fe ar yr Evening Post a dries i yn Hadfields. A es i i Hadfields.

**Beth o'dd Hadfields, i'r rhai sydd ddim yn gwbod ife?**

O'dd hi'n siop boblogedd lawr yn Abertawe. O'n nhw'n neud cyrtens a pelmets. A pyr'nny, o'n i'n gallu neud nhw ond o'n i ddim wedi neud pelmets erio'd, ac o'n i'n dysgu fan 'na wedyn. O'n i'n gwbod fel i neud pelmets a pethach wedyn.

**00.43.31: Ond o'dd peth profiad 'da chi'n gwnio cyn 'nny, o'dd hwnna wedi helpu.**

O'n i'n gallu neud cyrtens, ond yn wahanol. O'dd soft furnishings yn wahanol. O'n i'n gallu, gwedwch bod fi'n neud cushions o'n i'n gallu tēpo nhw, o'n i'n gallu neud pethach yn wahanol ar ôl bod yn Hadfields.

**00.43.49: Shwd o'dd y gŵr yn teimlo wedyn 'nny bod chi'n mynd mas i weithio pyr'nny. O'dd e'n iawn?**

O'dd, o'dd e'n iawn. O'dd bwyd yn barod bob nos pan o'n i'n dod gatre. O'dd e ddim yn becco. O'dd e'n gw. O'dd e'n mynd â'r cleaner wedyn ar ddydd Gwener, chi'n gwbod. O'dd e yn dda.

**00.44.07: A am faint o amser buoch chi'n Hadfields?**

Bues i'n Hadfields, nes bo' fi'n mynd i ffactri Tymbl. Pryd es i i ffactri Tymbl te? Jiw, sa i'n cofio. Gas mam, o'dd mam yn diabetic chwel, ac o'dd dwy wheelchair 'da fi'n tŷ yr un pryd chwel. A gwplles i'n Hadfields, nage, ges i interview yn Tymbl o Hadfields. A pan welon nhw bod fi'n Hadfields, 'how did you get in there' o'n nhw'n gweud chwel, y bos chwel.

**Pwy o'dd yn gweud hwnna?**

Y bos, bos Tymbl. Mr Oliver o'dd e. A wedodd e, 'how did you get into Hadfields'. 'Why do you ask', wedes i. 'I had a trade', wedes i. 'O', wedodd e fel 'na. A 'na pham ges i job yn Tymbl achos o'n i yn Hadfields, a wedes i 'I've only got a half day off today', wedes i, 'so I want to know today whether I'm having the job or not, so I won't be coming from ..' Achos bod fi'n trafeili o Abertawe, o'n i moyn rhwle'n agosach.

**00.45.24: Pam o'ch chi'n moyn mynd o Hadfields te?**

Achos o'n i'n gorfod mynd yn y bore i ddala bys wyth, yn y bore. O'ch chi ddim gatre nes bod hi jest whech yn y nos. O'dd yr amser yn hir chi'n gwbod. Wel, yn Tymbl, o'ch chi'n cwpla'n Tymbl am bump. O'ch chi gatre am half past five. Chi'n gwbod, o'dd e'n neud lot o wahanieth.

**00.45.43: Shwd ffindoch chi mas bod rhwbeth yn mynd yn Tymbl?**

Ffrind i fi o'dd yn gwitho 'na a ffonodd hi fi. Nage, dod lan i weld fi na'th hi. A wedodd hi, 'gronda', wedodd hi fel 'na, 'ti'n gwbod, ti'n gwbod bod fi'n gwitho'n Tymbl a ma' ishe rhywun, a cutter out, a ma' experience 'da ti, dere lan.' So, es i lan wedyn, a sa i'n cofio faint o amser bues i'n Tymbl.

**00.46.11: Chi'n cofio pwy flwyddyn dechreuoch chi 'na?**



Yn Tymbl – yn 1965 fi'n credu. Bues i'n Tymbl. Sen i'n whileo pethach, ma' nhw 'da fi'n rhwle. Wel, ethes i. Ond daeth redundancy. Ie, tair blynedd bues i'n Tymbl, achos da'th redundancy, gorfes i gwpla. Wel, amser gwplws i wedyn 'nny, ffonodd. Da'th 'y mhartneres lan a wedodd hi bod y matron yn moyn rhywun i neud iwniffirms, 'ffonwch chi'. 'Nagw i'n ffono hi', wedes i. Ond ffonodd hi fi i ofyn i fi, a o'n i'n mynd 'na'r bore ar ôl 'nny a o'n i'n dechre'n streit.

**00.47.05: Beth o'dd enw'r ffactri'n Tymbl?**

Modern Fold Factory.

**A beth yn gwmws o'n nhw'n neud 'na?**

Modern fold doors. Drwse llydan 'ma, chi'n gwbod. Gwedwch chi nawr bod fi'n moyn drws fel hyn, o'dd e fan hyn ac o'n nhw'n gallu agor a chwblw a ceued.

**Wedyn pan ethoch chi ymbytu'r job, o'n nhw'n gwbod bod chi'n Hadfields yn barod, nagon nhw, o'ch chi'n gorfod dangos bod chi'n gwbod beth o'ch chi'n neud? O'dd rhyw fath o test?**

Na, dim byd. Dim byd.

**A faint o amser halon nhw i roi gwbod i chi?**

O'dd half day 'da fi'n Hadfields, o'n i ddim wedi dangos i neb yn Hadfields bod fi'n mynd. A ethes i i ga'l interview, ac o'n i fod i ddechre'n streit, chwel. Ond o'dd rhaid i fi rhoi wthnos o notis i Hadfields gynta. So rhoies i wthnos o notis wedyn a es i i'r ffactri.

**00.48.07: Beth wedon nhw'n Hadfields bod chi'n cwpla?**

O'n nhw ddim yn bodlon.

**00.48.14: Mae'n neis bod nhw moyn cadw chi?**

Ond es i wedyn achos amser o'dd mab Mr Hadfield wedi mynd i drifo, peth ti'n galw, plên chi'n gwbod, da'th e mewn i'r siop y diwrnod hyn a drincs i ni gyd i gael selebreto chi'n gwbod. Amser Nadolig yn Hadfields, o'dd e'n sbri. O'n i'n mynd mas amser Nadolig, a o'dd un o'r bosys, dynon o'dd yn gwitho 'na, yn dod mas 'da ni, a chi'n gwbod o'ch chi'n mynd. O'dd e'n neud i chi ddod i ga'l drinc, ac o'n i'n mynd 'da fe ar ôl siopa. 'Dden i'n mynd nôl a fi'n cofio un o'r merched yn mynd mewn drw'r carpet room, a o'n i'n mynd trwy le o'dd y cyrtens. Ac o'n i'n rhedeg lan i'r lofft, i'r work room. Ac o'dd hon yn rhedeg mewn fel 'na a'r bos yn dod mas i gwrdd â hi. A o'dd hi'n hwyr yn mynd nôl chwel. Awr o'n i fod i ga'l, a o'n i, ni wedi ca'l sbri ym bob man chi'n gwbod. A o'n i'n cwrdd â merched o Llandybie wedyn.

**00.49.26: Ble o'ch chi'n cwrdd â'r merched o Llandybie? Yn Hadfields?**

Nage. Yn Morris Motors. O'n nhw ar yr un bys chwel. Yr un gang o'dd ar y bys yn regular.

**00.49.36: Am faint o amser wedoch chi bod chi'n Hadfields?**

Bues i'n Hadfield, dwi ddim yn siwr, dwi ddim yn siwr i weud y gwir wrthoch chi. 1958 fi'n credu. O 1958 a wedyn o'n i siwr o fod fanna'n Tymbl yn 1964 chwel.

**00.50.06: Shwd o'dd gwitho mewn ffactri fel Tymbl o gymharu â gwitho yn Morris Motors?**

O'dd e'n gwd achos dim ond local people o'dd yn Tymbl chwel.

**Faint o’dd e’n gwitho ‘na chwel?**

O’dd lot. O’n i siwr o fod yn gant, siwr o fod.

**00.50.20: Ife menywod o’dd fanna fwya.?**

Menywod a dynon. Dynon o’dd yn gorfod neud y gwaith trwma chwel. O’n i ddim yn gorfod neud gwaith trwm chwel.

**00.50.30: O’ch chi’n ca’l yr un pai?**

O nagon. O’n nhw’n ca’l fwya na ni. O’ch chi ddim yn ca’l lot. Sa i’n cofio faint o’n i’n ca’l nawr.

**00.50.42: Chi’n cofio’r diwrnod cynta’ fan ‘na te? (Tymb) Chi’n cofio dechre ‘na?**

Odw.

**A shwd o’ch chi’n twmlo?**

O’ch chi’n twmlo’n terrible. Ond o’n nhw i gyd yn gweud ‘o, ‘na neis i weld ti’. ‘So ni wedi gweld ti ers sbel. ‘Na neis bod ti ‘di dod ‘ma’. A da’th redundancy wedyn – last in first out. Chwel, o’n i ‘da’r dwetha’n mynd mewn wedyn.

**00.51.04: O’n nhw’n dechre torri lawr.**

Dechreuon nhw dorri lawr. Torron nhw lawr ar lot.

**00.51.06: Pam o’ch chi’n twmlo’n terrible pan ddechreuoch chi te?**

Sa i’n gwbod. O’n i’n gofyn shwd beth bydde fel hyn a fel ‘na. Ond o’dd e’n gwd.

**00.51.18: A shwd beth o’dd y ffactri fel tu fewn? Beth o’ch chi’n gallu gweld, beth o’ch chi’n clywed?**

O’dd hi’n ffactri fowr, rwm fowr ofnadw. Sa i’n gwbod beth sy’ ‘na nawr. Ma’ nhw’n mynd i fildo tai.

**00.51.29: Yn ble o’dd hi te?**

Lawr yn Bethesda road (Tymb)

**O’n i’n meddwl. O’dd hi’n ole ‘na, o’dd hi’n dywyll?**

O, na. O’dd gole mowr ‘da ni drw’r amser, chi’n gwbod.

**00.51.40: O’ch chi’n gweud o’dd hi’n o’r yn Morris Motors, o’dd hi’n well yn Tymb?**

O’dd hi ddim mor o’r. Sa i’n cofio’n iawn. Lot o’r ffrindie wedi mynd chwel, chi’n gwbod.

**Chi’n gallu disgrifio’r gwaith o’ch chi’n neud man’nny te?**

‘Na beth o’n i’n neud man’nny. O’n i ar y machine, stitsho dryse chi’n gwbod, ar y machine. A buodd un o’r merched yn cutter out, ond o’dd hi’n dweud un diwrnod, ‘dere i weld shwd i ni’n torri hwn yn iawn’. Ond bues i ddim yn torri dim. A dorrod hi ‘i llaw wedyn wrth gwrs. Ond ar y machine o’n i fwya. O’n i’n gorfod stitsho’r drws chwel.

**00.52.34: Mas o beth o’dd y dryse wedi ca’l ‘u neud?**

Fel plastig tew, tew, tew. A buodd peth ‘da fi.

**00.52.46: A beth o’ch chi’n gorfod gwishgo man ‘nny te?**

Overalls o’dd ‘da chi.

**O'n nhw'n rhoi nhw?**

Na, o'ch chi ddim yn ca'l nhw 'da un o' nhw. O'ch chi'n gorfod gwishgo'ch hunan ife.

**O'dd y gwaith man'nny'n frwnt te?**

Nago'dd. Sa i'n credu o'dd gwaith brwnt yn un o' nhw.

**00.53.05: O'ch chi'n gweud am ych ffrind, y cutter out, o'dd hi wedi torri llaw.**

O'dd. O'dd hi'n clebran drw'r amser yn lle watshan beth o'dd hi'n neud, a chi'n gwbod o'dd hi'n moyn witnesses, wel o'n i lan man 'nny. O'n nhw'n pallu talu ddi, a o'dd hi moyn subpoena fi chwel, a nawr ges i lythyr i weud, ond setlo nhw 'da ddi cyn 'nny.

**00.53.27: Ond shwd o'dd hi wedi torri llaw te, gyda siswrn?**

Nage, machine. Electric machine fel 'na chwel. O'dd hi'n barod i siarad o hyd. Ond o'dd Union yn Tymbl, o'dd Union 'da ni'n Tymbl a'r hospital, ond dim yn Morris Motors. Wel, o'dd Morris Motors – o'n i nôl yn Morris Motors amser y rhyfel chwel ife.

**00.53.53: Faint o niwed gas hi iddi llaw te?**

Gas hi gwt cas. Gas hi arian mowr, ond sa i'n gwbod faint. Ofynnes i ddim iddi. Ma' ddi 'di ca'l 'i chladdu nawr.

**00.53.59: O'dd yr Undeb wedi helpu ddi te?**

O'dd, o'dd. Trw'r Undeb o'dd hi'n ca'l e. Ond ma' ddi wedi'i chladdu nawr, ers blynydde. Gas hi arian mowr, fi'n gwbod.

**00.54.09: O'ch chi'n gorfod talu'r Undeb wedyn o'ch chi?**

O'n, o'n. O'n i'n talu'r Undeb. O'dd e ddim llawer fi'n gwbod.

**Rhwbeth bob wthnos ife?**

Ie. O'ch chi'n rhoi fe. O'dd dyn yr Undeb 'na. A o'ch chi'n rhoi'r arian iddo fe chwel.

**00.54.23: Beth os nagoch chi moyn bod yn rhan o'r Undeb?**

O'ch chi'n gorfod bod. O'dd e'n compulsory.

**00.54.31: O'ch chi'n ca'l ych talu bob wthnos fan 'na?**

O'n. Bob wthnos. Arian da yn Tymbl. O'dd arian da 'na.

**Chi'n cofio faint o'ch chi'n ca'l?**

O'n i'n ca'l bytu nine, ten pound a week. O'dd arian da yn Tymbl fi'n cofio. Ond sa i'n credu bod. Fi'n gwbod o'n i'n ca'l, o'n i'n mynd â car o sgwâr Crosshands gyda menyw, a pŵr dab ma' hi'n yr homes nawr. Ma' ddi wedi colli ei chof a phopeth, a ma'i llun hi, ma'r llun gyda fi'n rhwle. Bydd rhaid i fi whileo 'to. Y staff o'n i chi'n gwbod. Amser o'n i'n Tymbl. A o'n i'n ca'l reid 'da hi'n y car i fynd i Tymbl, a o'dd hi'n, i sgwâr Crosshands, a o'n i'n ca'l reid nôl. So o'dd e'n gyfleus. Amser o'dd hi ddim yn dod wedyn, o'n i'n dala bys.

**Service bys ife?**

Ie.

**00.55.38: O'dd dim bysus gwaith yn mynd man'nny te?**

Na. Ond o’dd digon o fysus i ga’l pyr’nny chwel. Ond o’dd pishin o ffordd ‘da ni i gerdded lan o Bethesda Road, o’dd e reit ar y gwaelod chwel.

**00.55.49: Pwy amser o’ch chi’n dechre man’nny te?**

Half past seven yn y bore. A o’n i’n mynd ‘da West Wales (BUSES) saith o’r gloch, amser o’n i’n mynd ar y bys. Ac o’n i’n cwpla am bump. O’dd cantîn man’nny. A chi’n gwbod o’dd lot, rheina sydd wedi marw, chi’n gwbod beth o’n nhw neud. O’dd lot o nhw, o’n i’n ca’l cino’n y cantîn, o’dd lot o’ nhw ddim yn byta dim. O’n nhw’n mynd ar deiets. Wel, a fi’n cofio’r cwc ‘na’n gweud, ‘rhyw ddiwrnod fyddwch chi’n flin.’ Chi’n gwbod, gweud fel ‘na wrthon nhw, chi’n gwbod ife.

**O’dd hi’n iawn, o’dd hi?**

O’dd, o’dd. Ond, ma’ rhan fwya nhw wedi mynd i gyd. Sdim lot ohonyn nhw ar ôl. A sa i’n nabod neb, sa i’n credu bo’ fi’n nabod neb sydd ar ôl o Tymbl. Achos o’dd neb, o’dd neb jyst neb o Lower Tymbl. O’dd lot o Cwmmowr yn gwitho ‘na. A rhai o Top Tymbl.

**00.56.53: Fel o’n nhw’n ca’l jobs te, achos o’dd dim yr un profiad a o’dd gyda chi gyda nhw o’dd e.**

